9 Ebrill 2021

Annwyl Ddarlledwr

## Y diweddaraf am y coronafeirws i ddeiliaid trwyddedau darlledu – Ebrill 2021

Ers dechrau cyfnod clo'r Coronafeirws, rydym wedi darparu arweiniad rheolaidd i bob darlledwr ynghylch sut rydym yn adlewyrchu'r sefyllfa newidiol yn ein dull rheoleiddio. Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarlledwyr am ein sefyllfa (mae ein canllawiau blaenorol ar gael yma: 23 Mawrth, 27 Ebrill, 26 Mai a 9 Tachwedd 2020).

Cydnabyddwn efallai y bydd gan bob darlledwr ymholiadau penodol gan ddibynnu ar natur ei wasanaeth ac amgylchiadau unigol. Rydym wedi cynnwys manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr, ac yn eich annog i gysylltu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y diweddariad hwn. Byddem hefyd yn atgoffa pob trwyddedai am bwysigrwydd sicrhau bod gennym y manylion cyswllt diweddaraf a chywir, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar y manylion cyswllt isod os hoffech wneud unrhyw newidiadau i'ch manylion.

### 1. Cydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom

Wrth gydnabod y potensial sylweddol am niwed, mae Ofcom yn parhau i flaenoriaethu gorfodi safonau darlledu mewn perthynas â chynnwys sy'n ymwneud â'r Coronafeirws. Gallwch fynd i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am orfodi safonau darlledu Ofcom yn ystod pandemig y coronafeirws, gan gynnwys crynodebau o ganfyddiadau perthnasol fel canllaw i ddarlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni.

### 2. Talu ffioedd trwydded

Trwy gydol pandemig y Coronafeirws, rydym wedi cydnabod bod rhai trwyddedeion wedi wynebu amgylchiadau anodd a newidiol, o safbwynt gweithredol ac ariannol. Er bod y rhan fwyaf o'r trwyddedeion wedi medru rhoi mesurau lliniaru ar waith a medru talu eu ffioedd trwydded ar amser, rydym wedi cynnig cynlluniau talu hyblyg i drwyddedeion yr oedd arnynt angen y fath gymorth.

Rydym yn cydnabod bod heriau gweithredol ac ariannol yn dal i fodoli ar gyfer rhai trwyddedeion, ynghyd ag ansicrwydd ar gyfer y dyfodol. Gan hynny, byddwn yn parhau i ddarparu trefniadau talu amgen i'r rhai na allant dalu ar amser ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Byddwn yn ysgrifennu at bob trwyddedai pan fydd eu hanfoneb yn ddyledus, gan roi manylion yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Dylai trwyddedeion sy'n medru talu wneud hynny cyn gynted â phosib.

### 3. Ymrwymiadau rhaglennu a chynhyrchu

Yn ein diweddariad diwethaf i ddeiliaid trwydded, gwnaethom nodi ein disgwyliad y byddai pob darlledwr yn rhoi mesurau lliniaru perthnasol ar waith i'w galluogi i fodloni'r holl ofynion rhaglennu a chynhyrchu yn eu trwydded o fis Gorffennaf 2021 ymlaen, ond y byddem yn parhau i adolygu hyn.

Ofcom / Y Swyddfa Gyfathrebiadau
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Teleffon: +44 (0)29 2046 7200
E-bost: cymru@ofcom.org.uk
www.ofcom.org.uk

Rydym yn diolch i'r trwyddedeion hynny sydd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am sut mae'r heriau a ddaw yn sgil y pandemig yn datblygu a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddarparu eu gwasanaethau. Mae hyn wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar sut mae'r sector darlledu yn gweithredu ar hyn o bryd, yn ogystal â natur a maint unrhyw heriau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag effaith pandemig y Coronafeirws. Rydym wedi'n calonogi gan y ffaith bod y rhan fwyaf o ddeiliaid trwydded wedi medru bodloni amodau eu trwydded o hyd, yn aml drwy fabwysiadu dulliau newydd ac arloesol o gomisiynu, gwneud rhaglenni ac amserlennu, ac o ganlyniad, rydym wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o raglenni o ansawdd uchel i wylwyr a gwrandawyr.

Gyda hyn mewn golwg, rydym yn credu y dylai pob un â thrwydded fod mewn sefyllfa i ddechrau dychwelyd at gyflawni holl ymrwymiadau rhaglennu a chynhyrchu eu trwydded. Rydym yn cydnabod bod y cyfyngiadau ar waith o hyd ledled y DU ar hyn o bryd, a bod y llwybrau arfaethedig ar gyfer llacio'r cyfyngiadau hyn yn ystod y Gwanwyn a'r Haf yn amrywio yn ôl gwlad. Felly, er mwyn rhoi amser i bob darlledwr wneud unrhyw drefniadau a mesurau lliniaru angenrheidiol, byddwn yn disgwyl i bob darlledwr fodloni holl amodau eu trwydded o 30 Medi 2021 ymlaen. Byddai hyn yn golygu bod gofynion dyddiol ac wythnosol yn cael eu bodloni'n llawn o'r dyddiad hwn ymlaen, a bod pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud i sicrhau bod rhaglennu a chynhyrchu'n cyd-fynd â chwotâu blynyddol, gan nodi bod y rhain fel arfer yn rhedeg yn ôl blwyddyn galendr.

Os ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n dal i wynebu heriau o ran cyflawni unrhyw ymrwymiadau cynhyrchu a rhaglennu ar ôl 30 Medi 2021, o ganlyniad i effaith barhaus y pandemig, rydyn ni'n gofyn i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosib cyn y dyddiad hwn i egluro pa rwymedigaeth(au) sydd wedi cael eu methu, yr amgylchiadau sydd wedi arwain at hyn, ac unrhyw fesurau lliniaru rydych chi wedi ceisio eu rhoi ar waith. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth berthnasol yn ôl yr angen. Os na wneir unrhyw ymgais i gysylltu ag Ofcom a bod trwyddedai wedyn yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau o ran rhaglennu a chynhyrchu, mae'n bosib y byddwn yn cychwyn camau gorfodi.

Byddwn yn parhau i adolygu ein dull gweithredu ac yn rhoi diweddariad i'r holl drwyddedeion yn ôl yr angen.

## 4. Ceisiadau gwybodaeth

Yn unol â'n gohebiaeth ym mis Tachwedd, rydym yn awr yn disgwyl i bob trwyddedai fod wedi rhoi mesurau lliniaru perthnasol ar waith neu addasu eu prosesau mewnol er mwyn iddynt allu ymateb yn ôl yr arfer i geisiadau am wybodaeth a gyhoeddir gan Ofcom, a'u bod yn gallu cyflwyno'r data a'r wybodaeth berthnasol erbyn y dyddiad cau a nodir.


Os bydd trwyddedai yn dal i wynebu heriau wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth o ganlyniad i'r pandemig, gofynnwn iddo roi gwybod i'r cyswllt ar y cais cyn gynted â phosib, ac erbyn dyddiad cau'r cais, gan roi gwybodaeth fanwl am y materion y mae'n eu hwynebu ac unrhyw fesurau lliniaru y mae wedi'u rhoi ar waith. Os na wneir unrhyw ymgais i gysylltu ag Ofcom a bod trwyddedai yn methu â rhoi'r wybodaeth berthnasol erbyn y dyddiad cau a nodir, mae'n bosib y byddwn yn cychwyn camau gorfodi.

## Cysylltu ag Ofcom

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y diweddariad hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni dros e-bost:

- Os oes gennych gwestiynau sy'n ymwneud â chyflwyno ceisiadau a data am ffurflenni teledu, anfonwch e-bost at MID@ofcom.org.uk. I gael rhagor o wybodaeth am gywain data'r diwydiant teledu, edrychwch ar yr adnoddau ar ein gwefan.
- Am gwestiynau sy'n ymwneud â chyflwyno ceisiadau am ffurflenni a data diwydiant radio masnachol, anfonwch e-bost at radiomid@ofcom.org.uk I gael rhagor o wybodaeth am gasglu data'r diwydiant radio masnachol, edrychwch ar yr adnoddau ar ein gwefan.
- Am gwestiynau sy'n ymwneud â'r drwydded a ddelir gan y darlledwr, ffurflenni radio cymunedol, neu unrhyw beth arall, anfonwch e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk

Yn gywir,



Kevin Bakhurst
Cyfarwyddwr Grŵp
Y Grŵp Darlledu a Chynnwys Ar-lein, ac
Aelod Gweithredol, Bwrdd Ofcom